



Adroddiad Arolygu

Canolfan Deulu Flying Start

Canolfan Deulu Flying Start

Heol Gladstone

Y Barri

CF63 1NH

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Canolfan Deulu Dechrau'n Deg

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Sesiynol
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Bro Morgannwg
Lleoedd cofrestredig	52
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Nodi â Llaw] Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nodi â Llaw] Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

<u>Llesiant</u>	Rhagorol
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Rhagorol
<u>Yr Amgylchedd</u>	Rhagorol
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Rhagorol

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae gan y plant lais cadarn iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd a gyda'r staff. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrandao arnynt. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff yn deall polisiau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol yn llwyr, ac yn eu dilyn. Maent yn gymwys, yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar iawn tuag at y plant. Mae'r staff yn darparu lleoliad magwrus dan arweiniad y plant. Maent yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol ac yn hyrwyddo ethos 'yn y foment' er mwyn gwneud yn siŵr y caiff chwilfrydedd a diddordebau'r plant eu datblygu ymhellach. Mae'r staff yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol yn eu rolau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi camau da iawn ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Maent yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio â'r holl reoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn mynd ati i gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau ac yn gosod disgwyliadau uchel.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus iawn ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf â'u cyfoedion a'u gofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad, yn ogystal â'i ethos. Caiff eu teimladau a'u hanghenion eu cydnabod a gwelsom enghreifftiau amlwg o hoffter ac ymlyniad. Er enghraifft, eisteddodd un plentyn ar lin aelod o'r staff, gan roi llyfr iddi a dweud, "*I want you to read me a story.*" Yn ystod y prynhawn, aeth plentyn at aelod o'r staff pan oeddent y tu allan a rhoi cwtsh iddi.

Mae gan y plant lais cryf iawn. Drwy gydol yr ymweliad, clywsom y plant yn cael eu cydnabod a'u parchu. Mae'r plant yn dewis sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Mae rhai o'r plant yn dewis eistedd a gwranddo ar stori, gydag eraill yn dewis symud o ardal i ardal er mwyn archwilio'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Cyn diwedd y sesiwn, mae rhai o'r plant yn dewis eistedd a chanu ar y carped, gydag eraill yn dewis sefyll a chanu o bell. Mae'r plant hefyd yn dewis a ydynt am roi cynnig ar y poti ai peidio wrth fynd i'r toiled.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig. Mae'r plant yn mynegi empathi a gofal tuag at ei gilydd ac yn gwranddo yn ofalus ar ei gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dangos gofal gwirioneddol tuag at ei gilydd yn ystod amser byrbryd gan sicrhau bod plât ar gael i bawb, "*Here you are.*" Maent yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a'r lleoliad. Mae'r plant yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn rhannu. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae gyda balŵns lliw yn yr awyr agored. Roeddent yn cydweithredu ac yn aros eu tro i gael gafael ar falŵns o wahanol liwiau. Roeddent yn fwy na pharod i rannu'r balŵns ac yn trafod pa liwiau yr oeddent yn eu hoffi.

Mae'r plant yn ymgolli yn eu chwarae, gan ddefnyddio iaith a datblygu eu sgiliau ym mhob un o'r meysydd datblygu drwy'r adnoddau pwrpasol sydd ar gael iddynt. Gwelsom ddau blentyn yn chwarae yn y gegin fwd yn esgus gwneud cacennau. Dywedodd un plentyn wrth y llall "*Put it in the oven to bake*" wrth iddynt brofi ac archwilio gwrthrychau go iawn gan ddangos gwybodaeth a gofal.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd diddorol sy'n addas ar gyfer eu cam datblygiad sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Yn ystod ein hymweliad, dewisodd y plant y gweithgareddau yr oeddent am eu gwneud o blith yr adnoddau a oedd ar gael. Yn ystod y prynhawn, nid oedd un plentyn am gymryd rhan yn y sesiwn 'seren y dydd' a stori. Aeth ati i ddatblygu ei chwarae yn annibynnol a gyda chymorth y staff drwy gyfrif disgiau pren, cyn symud ymlaen i adeiladu tŵr gyda nhw.

Mae bron pob un o'r plant yn brysur ac yn egnïol yn eu chwarae. Gwelsom blentyn yn defnyddio ei ddychymyg i greu llun gan ddefnyddio siapiau tryloyw o wahanol liwiau ar y bwrdd golau cyn addasu ei syniadau a defnyddio'r siapiau i adeiladu tŵr. Maent yn annibynnol ac fe'u gwelsom yn golchi eu dwylo'n dda yn yr uned sinc symudol yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy gydol y sesiwn, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau yn effeithiol. Gwelsom y plant yn arllwys dŵr a llaeth o jygiau i'w cwpanau, yn defnyddio gefel i ddewis y byrbryd yr oeddent am ei gael ac maent yn defnyddio'r toiled yn annibynnol. Roedd y plant hefyd yn hyderus yn mynd i nôl adnoddau ac yn symud yn hwylus o amgylch yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored; roeddent yn gwisgo ac yn tynnu eu cotiau a'u hesgidiau glaw yn annibynnol wrth chwarae.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o bolisiau'r lleoliad ac maent yn eu gweithredu'n gyson er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch personol y plant a sicrhau eu llesiant. Mae pob un ohonynt yn gweithredu'n gyson mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol i reoli unrhyw risgiau wrth iddynt godi. Roedd hyn yn amlwg wrth i'r plant gael mynediad i'r man twff a oedd yn cynnwys bwyd sych a thywod. Roedd y staff yn goruchwyllo'r plant gan aros yn yr ardal er mwyn sicrhau na fyddai'r plant yn bwyta'r tywod. Mae'r staff yn siarad yn barchus â'r plant, gan ddangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth a wnânt. Maent yn rheoli unrhyw arwydd o ymddygiad yn ofalus ac yn gyflym ac maent yn llwyddo i dawelu sefyllfaoedd gan ddefnyddio eu dychymyg, hyd yn oed cyn iddynt ddod yn broblemau. Roedd hyn yn amlwg pan oedd plentyn yn crio yn yr ardal awyr agored. Llwyddodd aelod o'r staff i dynnu ei sylw drwy ofyn a oedd am ei helpu i roi dŵr i'r planhigion. Stopiodd y plentyn grio yn syth gan fwrw ati i helpu'r aelod o staff. Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar ac yn rhoi cysur i'r plant ar unwaith pan fyddant yn drist neu'n ofidus.

Ar y cyfan, mae'r staff yn uchel eu cymhelliant ac yn frwdfrydig ac yn cynnig cymorth cyson ac effeithiol i'r plant wrth iddynt chwarae, dysgu a datblygu. Mae'r staff yn cefnogi'r plant wrth iddynt archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn cynllunio gweithgareddau â phwyslais penodol i gefnogi dysgu a datblygu'r plant. Maent hefyd yn cymryd sylw gofalus o ddewisiadau chwarae'r plant eu hunain ac mae'r lleoliad cyfan yn gweithredu i raddau helaeth dan arweiniad y plant, gyda gwaith cynllunio yn y foment yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i ddilyn diddordebau'r plant. Dywedodd y staff wrthym fod ardaloedd chwarae rôl yn cael eu creu yn dilyn trafodaethau â'r plant am y profiadau y maent wedi'u cael y tu allan i'r lleoliad, er enghraifft, ar ôl ymweld â'r siop goffi, aeth y staff a'r plant ati i greu ardal chwarae rôl siop goffi. Yn fwy diweddar, roedd y plant yn awyddus i steilio gwallt ei gilydd, ac mae'r ardal chwarae rôl bresennol yn cynnig salon trin gwallt.

Mae pob aelod o'r staff yn hyderus wrth ymdrin â senarios diogelu a gallant esbonio beth y byddent yn ei wneud pe bai ganddynt bryderon. Mae amserau byrbrydau yn dawel ac yn drefnus ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwyllo bob amser ac nad ydynt yn cael eu rhuthro. Mae cewynnau yn cael eu newid gan ddangos urddas, gofal a pharch ac mae'r staff yn dilyn yr holl fesurau diogelwch yn ddiwyd. Maent yn ymarfer gweithdrefnau diogelwch eraill fel ymarferion tân yn rheolaidd. Mae'r staff yn dilyn arferion hylendid yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, gwisgo ffedogau a menig wrth helpu i drin bwyd neu newid cewynnau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a thuag at y plant bob amser yn gadarnhaol iawn ac yn dangos parch. Gwelsom aelodau o'r staff yn cynnig cwtsh i'r plant, "*Come and give me a cwtsh!*" Maent yn sensitif i anghenion y plant. Yn ystod amser byrbryd, gallai aelod o staff weld bod plentyn yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r efel a dywedodd yn garedig, "*how about trying the spoon instead? Those tongs are a bit tricky aren't they?*" Mae'r staff yn hyderus i ymateb yn y foment, gan gynnig syniadau newydd. Er enghraifft, roedd plentyn yn llenwi

cerbyd tegan â phridd o'r pot planhigion y tu mewn. Gwelodd aelod o'r staff y cyfle i gefnogi'r gweithgaredd drwy gynnig y gellid defnyddio'r gegin fwd yn yr ardal awyr agored, *“shall we go and play in the muddy kitchen outdoors?”*

Mae bron pob un o'r staff yn wybodus iawn am adnoddau a soniodd y staff wrthym am gyfnodau pontio wrth i'r plant chwarae, gan esbonio sut y caiff rhannau rhydd eu defnyddio fel rhan o'r drefn ddyddiol. Gwelsom blentyn ac aelod o'r staff yn defnyddio darnau rhydd pren, yn adeiladu tŵr ac yn cyfrif yr eitemau. Ar y cyfan, maent yn ymrwymedig i ddarparu ystod dda iawn o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o ddatblygiad unigol y plant ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer y camau nesaf. Mae gan bob plentyn daith ddysgu electronig, sy'n cynnwys arsylwadau, asesiadau ac adolygiadau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel i'r plant. Mae'r lleoliad yn lân, yn daclus, mewn cyflwr da ac yn groesawgar iawn. Mae'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o ymwelwyr. Mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch effeithiol ar waith. Gwelsom ddogfennaeth sy'n dangos bod damweiniau yn y lleoliad yn cael eu monitro. Gwelsom arferion hylendid cyson, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pawb. Maent yn sicrhau bod y cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir.

Mae'r ardaloedd dan do yn lân, yn agored, yn eang ac wedi'u goleuo'n dda, gan gynnig llawer o wahanol ardaloedd chwarae. Mae'r ardaloedd wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog, gan annog dysgwyr chwilfrydig i archwilio. Mae gan y plant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Roedd y drysau o'r manau chwarae dan do i'r ardaloedd awyr agored ar agor drwy gydol yr ymweliad. Mae'r plant yn gallu mwynhau amgylchedd llif rhydd a dewis drostynt eu hunain os ydynt am chwarae o dan do neu yn yr awyr agored Mae'r plant hefyd yn dewis o blith sawl maes dysgu megis ardal gwneud marciau, chwarae rôl, chwarae synhwyrdd yn ogystal â chwarae corfforol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da iawn sy'n addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn. Mae'r lleoliad yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau naturiol a bywyd go iawn. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl, roedd llysiâu go iawn ar gael i'r plant yn ogystal â photiau a sosbenni metel ac offer troi. Defnyddir hetiau go iawn a bwrdd gwisgo yn y gornel gwisgo i fyny yn ogystal â brwsys gwallt, ffôn a photeli siampw gwag yn ardal chwarae rôl y siop trin gwallt. Dywedodd y staff wrthym y byddai adnoddau sy'n adlewyrchu diwylliannau yn cael eu cyflwyno i adlewyrchu diwylliannau'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Gwelsom enghreifftiau o adnoddau amlddiwylliannol yn y ddwy adran. Ar y cyfan, hyrwyddir cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn dda. Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac yn darparu llawer o gyfleoedd chwarae.

Mae'r eitemau a brynwyd yn ddiweddar yn dangos bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dewis adnoddau yn ofalus i gyd-fynd â themâu a'u bod yn datblygu cyfleoedd 'bywyd go iawn' ymhellach i'r plant, er enghraifft drwy brynu platiau, powlenni a chwpanau tsieina ac ati; gan alluogi'r staff i sicrhau eu bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog cyson i'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol a gaiff ei rhannu â phob aelod o'r tîm. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu storio'n gyfrinachol. Caiff y polisïau eu hadolygu bob blwyddyn, ac roedd dyddiadau a llofnodion i'w gweld ar bob dogfen. Nid oedd y polisi Atal Heintiau yn cynnwys manylion ynghylch hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw glefyd heintus. Mae ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, arfarniadau, meddyginiaeth, llyfrau damweiniau a digwyddiadau oll yn cael eu cwblhau'n gywir. Caiff yr holl systemau cofnodi eraill eu cwblhau, ac maent yn drefnus. Mae'r staff yn llofnodi'r plant i mewn ac allan o'r lleoliad.

Ceir diwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Dywed y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol iawn gan y rheolwyr a'u bod yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu. Mae proses hunanwerthuso effeithiol ac ystyrlon ar waith. Mae adroddiad y lleoliad ar ansawdd y gofal yn adlewyrchu'r gwasanaeth ac mae'r lleoliad yn croesawu sylwadau gan y staff a'r plant ac yn gwrando arnynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi'r staff yn dda iawn. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad y staff. Maent yn cynnal cyfarfodydd staff wythnosol er mwyn cyfnewid gwybodaeth a syniadau. Caiff y gwaith cynllunio a pharatoi ei wella ymhellach drwy gyfleoedd i'r staff rannu syniadau mewn grŵp WhatsApp. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y rheolwyr, sy'n hawdd mynd atynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod llesiant y staff yn cael blaenoriaeth ac mae cynlluniau gweithredu iechyd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent yn ymatebol i gryfderau'r staff ac yn sicrhau bod yr arweinwyr yn cael eu cylchdroi rhwng y ddwy adran er mwyn modelu'r arferion gorau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau rhagorol â'r rhieni. Yn ddiweddar, maent wedi gweithredu rhaglen Fathers Reading Every Day (FRED). Mae'r rhaglen yn rhoi llyfr a thafleuni gweithgareddau am ddim i'r plant fynd adref gyda nhw a'u rhannu â'u rhiant. Maent yn hysbysu'r rhieni ar lafar am gynnydd eu plant ac maent wrthi'n datblygu trefniadau i ddefnyddio ap i gyfathrebu. Mae hyn yn eu galluogi nhw a'r staff i gyfathrebu'n hawdd â'r rhieni o ddydd i ddydd ac i'w hysbysu'n rheolaidd am yr hyn y mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud. Mae'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn gyda'r lleoliad. Roedd yr adborth yn cynnwys, *"They're fantastic and lovely. My child has settled well, is developing well and I'm happy with the information I receive"* yn ogystal â *"We're really happy with*

everything. They've been really on the ball in supporting him as he may have additional learning needs. We received plenty of information in relation to policies and procedures before he started at the setting."

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf iawn ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ar draws y gymuned leol ac ehangach, gan gynnwys yr ysgolion lleol. Maent hefyd wedi creu ardal blannu synhwyraidd gymunedol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn gwneud ymdrech benodol i hybu'r Gymraeg.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Sicrhau bod cyfeiriad at Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael ei gynnwys yn y polisi Atal Heintiau mewn perthynas â hysbysiadau am unrhyw glefydau heintus.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Safon	Argymhelliad/argymhellion
	Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Dyddiad Cyhoeddi 04/05/2023